Cynllun Busnes 2010 – 2011
Y Ganolfan Byd Gwaith

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith
a Phensiynau

Bwrdd y Ganolfan Byd Gwaith

Aelodau o'r Ganolfan Byd Gwaith

David Chapman, Ruth Owen, Roland Ginn, Darra Singh, Doug Watkins, Matthew Nicholas, Jacinda Humphry, Jeremy Groombridge CB.

Isobel Stephen

Cyfarwyddwr y Ganolfan Byd Gwaith, ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd

Aelod o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Mark Fisher CBE – Ymgynghorydd polisi adrannol i Fwrdd y Ganolfan Byd Gwaith

Aelodau anweithredol

John Clare CBE – Cadeirydd

Sarah Anderson CBE

Kenneth Ludlam

Cynnwys

- Rhagair y Prif Weithredwr 4
- Ein gwasanaethau 6
- Ein blaenoriaethau busnes ar gyfer 2010-2011 8
- Ein cyfrifoldebau corfforaethol 12
- Cyflawni perfformiad - ein targedau ar gyfer 2010-2011 14
- Cyflawni'r gwerthoedd drwy ein pobl 18
- Ein hadnoddau 20
- Y Ganolfan Byd Gwaith y tu hwnt i 2010-2011 22
- Manteisio ar wasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith 26

Rhagair y Prif Weithredwr

Y Ganolfan Byd Gwaith

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi wynebu rhai heriau anodd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgîl llwythi gwaith sy'n cynyddu a chwsmeriaid sydd angen mwy o help nag erioed i ddod o hyd i waith. Gwnaethom ymateb yn gyflym i'r heriau hyn, gan weithio'n ddi-oed i wella ein gallu a'n hadnoddau yn gyflym, cynnig cymorth ychwanegol i gwsmeriaid a chynnal safonau gwasanaeth a pherfformiad uchel. Gwnaethom hefyd barhau i gyflwyno'r diwygiadau lles, gan gyflwyno'r Fargen Newydd Hyblyg yn llwyddiannus fel y cynlluniwyd, a darparu help mwy penodol a phersonol nag erioed o'r blaen.

Bydd y flwyddyn i ddod yr un mor heriol ac rydym yn barod i ymateb. Yn ogystal â darparu ystod lawn o gymorth i'n holl gwsmeriaid, un o'n prif flaenoriaethau fydd helpu i sicrhau nad yw pobl ifanc yn dioddef effeithiau hirdymor diweithdra. Gan roi cymorth gwirioneddol drwy'r ymgyrch Cefnogi Ieuenctid Prydain, y Warant Person Ifanc a'r Gronfa Swyddi i'r Dyfodol, byddwn yn sicrhau bod pob cysylltiad a gawn â phobl ifanc yn cyfrif.

Rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar waith fy rhagflaenydd, Mel Groves a pharhau i sicrhau bod y Ganolfan Byd Gwaith yn wasanaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yn 2010 - 2011 byddwn yn parhau i foderneiddio a gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid a chyflogwyr, gan fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd. Rydym eisoes wedi dechrau'r gwaith ar ddarparu un rhwydwaith ffôn ar gyfer ymholiadau ynghylch budd-daliadau a fydd yn ein galluogi i dderbyn mwy o alwadau a gwella ein gwasanaethau ffôn. Rydym hefyd yn gwella ein gwasanaethau er mwyn i gwsmeriaid allu gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein a bydd hyd yn oed yn haws i gyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ar ein gwefan.

Byddwn yn cynnal ein ffocws ar gydweithio â phartneriaid lleol a chenedlaethol i ddarparu gwasanaethau proffesiynol er budd ein cwsmeriaid a rennir, i fynd i'r afael â diweithdra a sicrhau gwerth am arian. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein Partneriaethau Cyflogaeth Lleol ac yn parhau i gynyddu ein cefnogaeth i gyflogwyr ac unigolion sy'n wynebu colli swydd. Bydd cwsmeriaid yn elwa wrth i ni barhau i gryfhau partneriaethau, gan ein galluogi i ddarparu

gwasanaethau mwy cydgysylltiedig, proffesiynol ac effeithlon. Er enghraifft, bydd cwsmeriaid yn gweld gwelliant mawr wrth i ni gyflwyno gwasanaeth sy'n golygu mai dim ond unwaith y bydd yn rhaid iddynt roi gwybod i'r llywodraeth am enedigaeth neu farwolaeth.

Un o'n prif flaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf fydd parhau i weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Ymhlith y prif enghreifftiau mae gweithio gydag awdurdodau lleol ar y cynlluniau peilot Total Place; datblygu ffyrdd arloesol o gyfuno gwasanaethau i wella'r canlyniad terfynol i breswylwyr lleol a darparu gwell gwerth am arian; gweithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambrau Masnach Prydain ac eraill i ddarparu gwasanaeth newydd i'n cwsmeriaid busnesau bach; a gyda'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau newydd a'r Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol i barhau i ddatblygu'r broses o ddarparu sgiliau a chymorth cyflogaeth mewn ffordd integredig.

Mae ein pobl ni yn allweddol i lwyddiant parhaus y Ganolfan Byd Gwaith. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Byddwn yn adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd ein rheolwyr drwy arwain newid a chynnwys pobl. Byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno ein rhaglen gwelliant parhaus, gan alluogi ein pobl i ddileu gwastraff o'n systemau a'n prosesau a gwella gofal cwsmeriaid.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd gennym dargedau perfformiad uchelgeisiol, setliad ariannol anodd a'n nod parhaus o barhau i ddarparu'r help a'r cymorth sydd eu hangen ar ein cwsmeriaid. Byddwn hefyd yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn Neddf Diwygio Lles 2009 sy'n anelu at hyrwyddo dewis ac annibyniaeth, gan helpu pobl i chwilio am waith a pharatoi ar ei gyfer.

Rwy'n hyderus y bydd gwaith caled ac ymrwymiad y bobl yn y Ganolfan Byd Gwaith a'n partneriaid, a'u balchder yn eu gwaith, yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau gyda brwdfrydedd ac ymrwymiad wrth i ni gydweithio i wneud 2010-2011 yn llwyddiant i'r Ganolfan Byd Gwaith a'i chwsmeriaid.

Darra Singh
Prif Weithredwr

Ein gwasanaethau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau ac rydym yn chwarae rôl allweddol yn y broses o gyflawni amcanion adrannol ehangach.

Yn ystod y dirywiad economaidd, rydym wedi gweld nifer y ceisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith yn dyblu. Rydym wedi datblygu ein gwasanaethau ac wedi parhau i ganolbwyntio ar ein diben, sef sicrhau gwaith i'r rhai a all weithio a chymorth i'r rhai na allant weithio. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gennym y gallu a'r adnoddau a'r hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau mewn galwadau am ein gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym bellach yn cynnig cymorth ychwanegol i gwsmeriaid ar ddechrau eu cais am Lwfans Ceisio Gwaith ac i'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am chwe mis neu fwy. Mae'r galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau yn gwneud ein cymorth i symud pobl i mewn i waith yn bwysicach fyth ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn parhau i roi'r gorau i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn gyflym. Mae tua hanner o'r ceisiadau newydd yn para llai na thri mis ac mae tua thri chwarter yn para llai na chwe mis.

Rydym hefyd am roi mwy o ddewis a chymorth personol i bawb sydd ei angen, gan roi pob cyfle iddynt gael gwaith ac aros mewn gwaith. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau i foderneiddio ein gwasanaeth drwy ehangu ein gwasanaethau ar-lein i gwsmeriaid a chyflogwyr. Rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio'n agosach byth gyda chyflogwyr a phartneriaid lleol a chenedlaethol, i wella ein gwasanaethau i gwsmeriaid.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn anelu at gael gwared ar achosion o wahaniaethu annheg neu anghyfreithlon, gan gefnogi amcanion strategol adrannol drwy sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bob un o'n cwsmeriaid.

Helpu ein cwsmeriaid i ddod o hyd i waith a'i gadw

Byddwn yn parhau i helpu ein cwsmeriaid i ddod o hyd i waith, gan ddefnyddio mwy o gymorth gan ymgynghorydd personol a mwy o gyfleoedd drwy Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol. Byddwn yn teilwra ein gwasanaethau i helpu pobl i gael y cymorth, y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i symud o fudd-daliadau i waith. Rydym bellach yn darparu cymorth ychwanegol i'n cwsmeriaid, er enghraifft, drwy'r ymgyrch Cefnogi Ieuenctid Prydain ac yn helpu'r rhai sy'n cysylltu â ni am y tro cyntaf neu ar ôl cyfnodau hir o ddiweithdra.

Cynorthwyo ein cwsmeriaid

Rhown gyngor ar yr ystod o fudd-daliadau sydd ar gael gan egluro'r amodau ar gyfer cael budd-daliadau, sy'n helpu i atal twyll a phobl sy'n hawlio mwy o fudd-daliadau nag y mae ganddynt hawl i'w cael. Byddwn yn talu budd-daliadau yn gywir ac yn brydlon. Rydym hefyd yn gwneud taliadau neu fenthyciadau o'r Gronfa Gymdeithasol lle mae angen cymorth ariannol ychwanegol ar gwsmeriaid. Rydym hefyd wedi gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i ofalwyr.

Gweithio gyda chyflogwyr

Rydym yn helpu cyflogwyr drwy roi cyngor ar y farchnad swyddi, gwasanaethau recriwtio a hyfforddiant gan gynnwys cyngor ar amrywiaeth a chyfle i gael gafael ar gymorthdaliadau recriwtio a hyfforddi. Rydym yn hysbysebu swyddi o bob cwr o'r DU ac Ewrop y gall darpar ymgeiswyr chwilio amdanynt ar-lein a dros y ffôn. Rydym yn dod o hyd i bobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol i wneud cais amdanynt ac yn helpu i baratoi darpar recriwtiaid drwy Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol. Rydym yn rhoi cymorth a chyngor ar gyflogi pobl anabl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i helpu cyflogwyr i reoli achosion o ddileu swyddi.

Gweithio gyda phartneriaid lleol

Rydym yn chwarae rôl allweddol yn gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus, yn bennaf yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, yr Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol, gan fynd i'r afael â diweithdra mewn ardaloedd penodol. Drwy wneud hynny ein nod yw sicrhau bod anghenion cwsmeriaid wrth wraidd y broses o ddylanwadu ar bartneriaethau, strategaethau is-ranbarthol a chynlluniau cyflawni a'u datblygu. Fel rhan o'r gwaith hwnnw rydym yn ymwneud yn agos â mentrau megis cytundebau ardal lluosog a'r cynlluniau peilot 'Total Place'.

Ein blaenoriaethau busnes ar gyfer 2010-2011

Helpu pobl i mewn i waith

Byddwn yn parhau i helpu ein holl gwsmeriaid i gael gwaith, yn enwedig pobl ifanc a'n cwsmeriaid mwyaf difreintiedig, drwy wneud y canlynol:

- canolbwyntio'n gryf ar leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc;
- newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Warant Person Ifanc i chwe mis o ddiweithdra a darparu cyfleoedd ychwanegol yn cynnwys swyddi'r Gronfa Swyddi i'r Dyfodol, hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar waith, rhaglenni cyflwyno a Llwybrau at Waith;
- ei gwneud yn ofynnol i bobl ifanc ymgymryd â phrofiad gwaith drwy'r Tasglu Cymunedol os ydynt wedi bod yn ddi-waith am 10 mis heb fanteisio ar gyfle i wella eu cyflogadwyedd;
- darparu cymorth penodedig i bobl ifanc 18-24 oed gan ymgynghorydd a enwir, a chyfle i fanteisio ar ystod o gymorth hyblyg yn ystod eu proses hawlio ynghyd â chymorth gwell i chwilio am swyddi ac amser ychwanegol gyda'u hymgynghorydd rhwng 13 a 26 wythnos;
- darparu mwy o gymorth dychwelyd i'r gwaith drwy'r Ganolfan Byd Gwaith a darparwyr ar gyfer cwsmeriaid dros 50 oed, gweithwyr proffesiynol, pobl sydd am fod yn hunangyflogedig, pobl â hanes o ddiweithdra a thrwy osod cydlynwyr iechyd meddwl llawn amser ym mhob dosbarth;
- treialu model datblygedig o hyblygrwydd dirprwyedig mewn pedwar dosbarth. Bydd y rhain yn dwyn rheolwyr lleol ac ymgynghorwyr i gyfrif am ganlyniadau swyddi parhaus ac yn rhoi rheolaeth iddynt dros eu hadnoddau a hyblygrwydd i deilwra gwasanaethau i anghenion unigol;
- sefydlu timau allgymorth ym mhob rhanbarth a sir, gan adeiladu ar lwyddiant presennol yng Nglannau Mersi, De Tyne a Wear a De Llundain. Bydd y rhain yn mynd i'r afael â diweithdra ar ystadau tai mewn partneriaeth â phartneriaid lleol;
- gweithio'n agosach â Connexions i atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn cynnwys cymorth ychwanegol gan ymgynghorwyr, cymorth broceru swyddi a sesiynau grŵp;
- cwblhau'r broses o gyflwyno'r Fargen Newydd Hyblyg, a darparu cymorth personol, wedi'i deilwra i gwsmeriaid sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor i'w helpu i gael swydd;
- gweithio gyda chynghorau sgiliau sector, cyflogwyr a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau i helpu hyd yn oed fwy o bobl i gael gwaith drwy ein Partneriaethau Cyflogaeth Lleol a hyfforddiant cyn-gyflogaeth;
- atgyfnerthu'r cymorth a rydd ein hymgynghorwyr personol i gwsmeriaid drwy, er enghraifft, ddarparu gwell offer diagnostig a hyfforddiant ychwanegol i helpu i nodi anghenion cwsmeriaid a'u gofynion o ran sgiliau a gwella eu gwybodaeth am yr economi leol; ac
- ehangu elfennau o gynlluniau peilot llwyddiannus y gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Integredig ledled y wlad ar gyfer ceiswyr gwaith (a chynnal profion pellach ar gyfer grwpiau cwsmeriaid eraill), lle mae ymgynghorwyr yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr gyrfaoedd 'nextstep' i roi gwell cymorth i gwsmeriaid gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gwaith cynaliadwy a datblygu yn y gwaith hwnnw.[1]

[1] Trefniant dros dro yw hwn hyd nes y caiff y Gwasanaeth Datblygu a Gyrfaoedd newydd i Oedolion ei gyflwyno yn ystod 2010.

Astudiaeth Achos: David Simcock

Yr elfen gyntaf o'r Warant Person Ifanc i'w lansio oedd y Gronfa Swyddi i'r Dyfodol, sydd eisoes wedi helpu ystod eang o bobl ifanc i mewn i waith.

Roedd David Simcock, 23 oed, o Stoke-on-Trent, wedi bod yn ddi-waith am flwyddyn ers colli ei swydd dros dro.

Roedd y dirwasgiad economaidd wedi effeithio'n ddifrifol ar Stoke-on-Trent, yn enwedig yr ardal lle mae David yn byw.

Prif rwystr David i waith oedd y prinder swyddi yn y sector garddio/garddwriaeth ac ni chafodd unrhyw lwyddiant wrth wneud cais am swyddi eraill mewn sectorau gwahanol.

Dechreuodd pethau wella i David pan gyfarfu â Daniel Dykes o Ganolfan Gwaith Hanley, a benodwyd fel ei Ymgynghorydd Pobl Ifanc - rôl a sefydlwyd i helpu pobl ifanc 18-24 oed drwy'r Warant Person Ifanc.

Yn eu cyfweliad cyntaf, aeth Daniel ati i gyfateb sgiliau a phrofiad David â swyddi gwag presennol y Gronfa Swyddi i'r Dyfodol a daeth o hyd i ddwy swydd oedd yn ddelfrydol yn ei farn ef, gan eu bod yn cynnwys gwaith eithaf trwm, yn yr awyr agored, ar dyddyn a fferm.

Ar ôl cyfweliad a threial gwaith dwy awr o hyd gyda'r cyflogwr, NCA Enterprises, dechreuodd David ar ei swydd, sy'n cynnwys helpu i ofalu am yr ieir a'r geifr.

Dywedodd David:

"Dwi'n falch iawn i fod nôl yn y gwaith. Dwi wedi bod yn ceisio cael swydd ers bron flwyddyn heb unrhyw lwyddiant a dyma'r cyfle dwi wedi bod yn gobeithio amdano."

Cyflawni ein targedau perfformiad

Byddwn yn ceisio cyflawni ein holl dargedau perfformiad, gan dalu'r swm cywir o fudd-dal i'n cwsmeriaid ar yr adeg gywir a lleihau achosion o dwyll a chamgymeriadau drwy:

- sicrhau bod ceisiadau am fudd-dal yn gywir y tro cyntaf a'u cadw'n gywir;
- cynnal safonau perfformiad a darparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog hyd yn oed lle mae galw cynyddol am ein gwasanaethau;
- sicrhau bod perfformiad yn gyson ym mhob rhan o'n busnes drwy anelu at sicrhau bod perfformiad pob un o'n swyddfeydd yn cyrraedd lefelau'r swyddfeydd sy'n perfformio orau; a
- chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gyflawni amcan yr Adran i leihau achosion o dwyll a chamgymeriadau, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol, banciau, cymdeithasau adeiladu ac adrannau'r llywodraeth.

Moderneiddio gwasanaeth cwsmeriaid

Rydym yn frwdfrydig dros wella ein gwasanaeth cwsmeriaid drwy gynyddu cwmpas ein cyfleusterau ar-lein a hunanwasanaeth ynghyd â gweithio'n agosach â chyflogwyr a phartneriaid lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

- creu un rhwydwaith ffôn ar gyfer ymholiadau budd-dal, gan ein galluogi i dderbyn mwy o alwadau a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i gwsmeriaid sy'n cysylltu â ni dros y ffôn;
- gwella ac ehangu ein cyfleusterau hunanwasanaeth fel y gall mwy o gwsmeriaid wneud ceisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein;
- ymchwilio i ffyrdd o helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r cyfleuster hunanwasanaeth a chael gafael ar eu gwybodaeth yn haws;
- ehangu mynediad i'n gwasanaeth ar-lein a gwella ein cynhwysiant digidol, gan gynnwys gwaith i ddatblygu cyfleuster chwilio am swyddi ar-lein i gwsmeriaid a'i gwneud yn haws i gyflogwyr hysbysebu swyddi gwag ar-lein;
- cyflwyno gwasanaeth paru swyddi awtomataidd a fydd yn cysylltu gwybodaeth cwsmeriaid â gofynion cyflogwyr mewn dull rhagweithiol, gan ddarparu hysbysiadau electronig o gyfleoedd er budd ceiswyr gwaith, cyflogwyr a'n busnes;
- gweithio gyda'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaeth lle y bydd pobl ond yn gorfod rhoi gwybod i un o asiantaethau'r llywodraeth unwaith am enedigaeth neu farwolaeth a threialu gwasanaeth tebyg ar gyfer rhoi gwybod am achos o newid cyfeiriad;
- gweithio gyda phartneriaid ar lefel ranbarthol a lefel awdurdodau lleol i wella'r cysylltiad rhwng ein gwasanaethau craidd a'r rhai a ddarperir gan bartneriaid, yn enwedig drwy gyfrannu'n effeithiol at gytundebau lleol ac ardal luosog, treialon 'Total Place', 'City Region Forerunners' a mentrau eraill; a
- gweithio'n agos gyda'n partneriaid a chyflenwyr, gan roi gwybod iddynt am ddatblygiadau newydd i sicrhau bod ganddynt y gallu a'r adnoddau i ymdrin â'r galw cynyddol yn ystod y dirywiad economaidd.

Gwella effeithlonrwydd

Byddwn yn defnyddio technegau gwelliant parhaus 'Lean' i helpu i sicrhau gwerth am arian a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd drwy:

- galluogi ein pobl i wella ein prosesau yn barhaus, lleihau gwastraff a gwella ein gwasanaeth cwmseriaid a'n cynhyrchiant;
- gwneud ein prosesau a'n gweithdrefnau yn fwy effeithlon drwy leihau faint o bapur a ddefnyddiwn; a
- parhau i gynllunio ein hadnoddau'n ofalus, yn unol â llwythi gwaith sy'n newid a heriau o ran effeithlonrwydd.

Cynnwys ein pobl

Er mwyn cynnwys ein pobl rydym yn bwriadu:

- defnyddio canlyniadau ein Harolwg Pobl a'n hasesiad Buddsoddwyr mewn Pobl i nodi lle y mae angen i ni wneud mwy i gynnwys ein pobl a sicrhau gwelliannau mewn ardaloedd â blaenoriaeth;
- ehangu ein rhaglen Yn ôl i'r Llawr lle mae uwch reolwyr yn treulio amser yn darparu gwasanaethau sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid fel eu bod yn gwybod beth sydd ei angen ar ein cwsmeriaid a'n pobl;
- parhau i ddatblygu galluoedd ein rheolwyr i arwain, ysbrydoli a chymell eu staff drwy raglenni datblygu mewnol megis Gwneud Gwahaniaeth, Rheoli'r Busnes ac Arwain y Busnes; a
- sicrhau bod rheolwyr yn trafod perfformiad ac anghenion datblygu yn rheolaidd gyda'u holl bobl, drwy ein system rheoli perfformiad.

Darparu diwygiadau lles

Byddwn yn gweithredu mesurau diwygio lles drwy:

- dechrau symud cwsmeriaid Budd-dal Analluogrwydd i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth;
- gweithio gydag eraill yn yr Adran i gyflwyno Deddf Diwygio Lles 2009 drwy:
  - treialu dull newydd o ymdrin â chwsmeriaid â phroblemau heroin neu grac cocên sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth;
  - rhoi cymorth i'r rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor drwy roi profiad gwaith llawn amser iddynt a chymorth cyflogaeth ychwanegol;
  - sicrhau bod rhieni unigol sydd â phlant ifanc yn cael yr hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i baratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol a symud yn agosach at y farchnad lafur;
  - gweithredu dull 'Taliad ar Gyfrif' o ran budd-daliadau, gan ddileu'r angen i gwsmeriaid wneud cais am Fenthyciad Argyfwng tra'n aros am ddiwrnod talu eu budd-dal cyntaf; a
- cyflwyno mesurau eraill yn cynnwys cymorth ychwanegol er mwyn i'n cwsmeriaid gael y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt a sicrhau bod gwaith yn talu drwy brofi 'credyd gwell eich byd mewn gwaith'. Mae hyn yn sicrhau y bydd pawb sy'n dechrau gweithio ar ôl chwe wythnos neu fwy o fod yn ddi-waith £40 yr wythnos yn well eu byd mewn gwaith.

Ein cyfrifoldebau corfforaethol

Hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a darparu gwasanaethau hygyrch

Rydym bob amser yn ceisio dysgu mwy am anghenion amrywiol ein cwsmeriaid a'n staff a sut i wneud ein gwasanaethau yn fwy hygyrch a phriodol i bawb.

Ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad ar ein cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhywiol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi fframwaith ymarferol i ni ar gyfer gwella ein cydymffurfiaeth a byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma. Yn ystod 2010-2011 byddwn, er enghraifft:

- yn parhau i gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac ymgynghori â hwy;
- yn rhoi adnoddau gwell i'n pobl i ddeall ac ymateb i anghenion unigolion a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb;
- yn gwerthuso a chyhoeddi cynnydd yn erbyn ein cynlluniau hil, anabledd a chydraddoldeb rhywiol ar gyfer 2008-2011;
- yn parhau i adolygu a gwella hygyrchedd ein gwasanaethau; ac
- yn atgyfnerthu ein proses asesiad o effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod pob asesiad yn ystyried pob elfen o'r dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus.

Darparu dyfodol cynaliadwy

Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith ddyletswydd i hyrwyddo a chynnal prosesau datblygu cynaliadwy. Byddwn yn:

- parhau i godi ymwybyddiaeth ein pobl, cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid o gynaliadwyedd, gan gydnabod yr angen i symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy;
- gweithio gyda'n prif gyflenwyr a'n partneriaid i fonitro ein defnydd o adnoddau naturiol a sicrhau ei fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
- nodi lle y gallem gynyddu effeithlonrwydd, sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl, lleihau teithiau busnes (drwy ddefnydd cynyddol o fideogynadledda) a lleihau ein defnydd o ynni ac allyriadau o nwyon tŷ gwydr;
- cydymffurfio'n llawn â holl ofynion deddfwriaeth perthnasol o ran newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon; a
- sicrhau pob pob penderfyniad a pholisi allweddol yn ystyried asesiad priodol o effaith ar ddatblygu cynaliadwy.

Cyflawni perfformiad - ein targedau ar gyfer 2010-2011

Mae ein targedau perfformiad uchelgeisiol yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn bwriadu gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym drwy sicrhau bod y cwsmer wrth wraidd popeth a wnawn. Maent yn ategu ein diben o helpu pobl i symud o ddibyniaeth ar les i mewn i waith a darparu cymorth budd-dal amserol a chywir i'r rhai na allant weithio.

Targed Canlyniad Swyddi

Mae'r targed strategol hwn yn mesur canlyniadau'r cymorth y mae'r Adran yn ei roi i gwsmeriaid i'w helpu i ddod o hyd i waith drwy ymyriad neu wasanaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith, neu drwy ddarpariaeth arbenigol allanol. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran yn gyd-atebol am berfformiad yn erbyn y targed hwn.

Mesurir y targed drwy ddyfarnu pwyntiau yn seiliedig ar y flaenoriaeth a roddwn ar gael grwpiau cwsmeriaid gwahanol i mewn i waith, gan adlewyrchu'r anfantais gymharol a wynebant yn y farchnad lafur. Er enghraifft, mae rhieni unigol neu gwsmeriaid sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cael 12 pwynt, mae pobl sy'n dechrau gwaith ar ôl hawlio Lwfans Ceisio Gwaith am lai na chwe mis yn cael pedwar pwynt ac mae pobl sy'n newid swyddi yn cael un pwynt.

Ein targed ar gyfer 2010-2011 yw cyflawni 11.47 miliwn o bwyntiau.

Twyll a Chamgymeriadau

Mae gan yr Adran amcan strategol i sicrhau na chaiff mwy nag 1.82% o'r holl fudd-daliadau a delir ei ordalu ac na chaiff mwy na 0.76% ei dandalu erbyn mis Mawrth 2011.

Caiff y cyfraniad a wneir i amcan y budd-daliadau a delir gan y Ganolfan Byd Gwaith ei fesur gan y targed canlynol, y mae'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran yn gyd-atebol amdano:

- erbyn mis Mawrth 2011, sicrhau bod colledion o dwyll a chamgymeriadau mewn Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith i bobl o oedran gweithio yn llai na 4.2% o'r gwariant cyffredinol.

I ategu'r broses o gyflawni'r targed hwn, mae gennym darged gweithredol mewnol, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau gwrth-dwyll a mesurau eraill sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o dwyll a chamgymeriadau yn y system.

Targed Ymgysylltu â Chyflogwyr

Mae'r Targed Ymgysylltu â Chyflogwyr yn mesur pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau i gyflogwyr. Rydym yn mesur:

- **y canlyniad** – p'un a yw'r cyflogwr wedi llenwi ei swydd wag a ph'un a wnaed hynny o fewn yr amserlen ofynnol;
- **amseroldeb** – pa mor gyflym y gall cyflogwr gael gafael ar ein gwasanaethau;
- **hygyrchedd** – argaeledd ein gwasanaethau ar-lein a dros y ffôn; a
- **cywirdeb a phroffesiynoldeb** – ansawdd ein gwasanaeth cymryd swyddi gwag a chywirdeb y swyddi gwag terfynol.

Ein targed ar gyfer 2010-2011 yw cyflawni 91% yn erbyn y safonau rydym wedi'u pennu ar gyfer darparu gwasanaethau i gyflogwyr.

Targed Gwasanaeth Cwsmeriaid

Mae'r Targed Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn mesur pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid unigol. Caiff y targed ei asesu yn erbyn safonau gwasanaeth Siarter Cwsmeriaid yr Adran, sef 'Triniaeth Briodol', 'Canlyniad Priodol', 'Ar Amser' a 'Mynediad Rhwydd'.

Rydym yn mesur:

- **triniaeth** – sut y caiff cwsmeriaid eu trin, gan fesur yn benodol ymddygiad ein pobl yn erbyn meini prawf sy'n bwysig i gwsmeriaid yn eu barn hwy;
- **canlyniad** – cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a roddir i gwsmeriaid;
- **amser** – pa mor gyflyn y gall cwsmer gael gafael ar ein gwasanaethau; a
- **mynediad** – argaeledd ein gwasanaethau i gwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf agored i niwed.

Ein targed ar gyfer 2010-2011 yw cyflawni 86% yn erbyn y safonau a bennwyd ar gyfer pob un o'r uchod.

Targed Cyflawni Ymyriadau

Mae'r targed hwn yn ymwneud â helpu ein cwsmeriaid i symud i mewn i waith drwy roi cymorth sy'n canolbwyntio ar waith yn brydlon i'r rhai hynny sydd â hawl i gael Lwfans Ceisio Gwaith a rhieni unigol sy'n cael Cymhorthdal Incwm.

Mae'r targed yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal cyfweliadau amserol mewn 85% o achosion yn gyffredinol, sy'n cynnwys y canlynol:

- 83% o adolygiadau sy'n canolbwyntio ar waith ar gyfer rhieni unigol sy'n cael Cymhorthdal Incwm o fewn tri mis i'r adeg y bwriedir eu cynnal; ac
- 87% o gyfweliadau Lwfans Ceisio Gwaith o fewn chwe wythnos i'r adeg y bwriedir eu cynnal.

Targed Amseroedd Clirio Gwirioneddol ar Gyfartaledd

Mae'r targed hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddelio â cheisiadau am fudd-daliadau yn gyflym. Mae'n mesur nifer y diwrnodau gwaith a gymerwn ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r targedau ar gyfer 2010-11 fel a ganlyn:

- Cymhorthdal Incwm - 9 diwrnod
- Lwfans Ceisio Gwaith - 11 diwrnod
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth – 14 diwrnod.

[2] diffinnir 'diwrnodau gwaith' fel dydd Llun i ddydd Gwener

Adrodd ar ein perfformiad

Rydym yn mesur pa mor dda rydym wedi perfformio drwy gydol y flwyddyn yn erbyn pob un o'n targedau. Mae'r targedau wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at ddarparu'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Amcanion Strategol Adrannol. Fe'u hategir gan gyfres o ddangosyddion rheoli allweddol, a ddefnyddir i fesur unedau busnes. Mae adrodd ar berfformiad yn hanfodol i fonitro perfformiad yn erbyn targedau ac i helpu i nodi a mynd i'r afael â risgiau a materion yn gynnar. Rhoddwn adroddiadau misol ar gynnydd a pherfformiad ar ein holl dargedau i Fwrdd y Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran a Gweinidogion. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein targedau a sut rydym yn gwneud yn lleol ac yn genedlaethol yn www.dwp.gov.uk/cymraeg drwy ddilyn y dolenni 'Ynglŷn â DWP' 'Y Ganolfan Byd Gwaith' 'Targedau a Pherfformiad'.

Perfformiad amgylcheddol

Mae gan adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth dargedau i leihau eu heffaith amgylcheddol. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cyfrannu at dargedau'r Adran.

Lefelau targed gweithrediadau cynaliadwy'r Ganolfan Byd Gwaith ar ystâd y llywodraeth

	Targed 2010-2011
Teithio ar ffyrdd ar gyfer busnes - allyriadau CO2 (tunelli)	7,839
Teithio ar ffyrdd ar gyfer busnes - milltiroedd (000)	23,845
Defnydd ynni swyddfeydd - allyriadau KgC	33,427,781
Effeithlonrwydd trydan - KW/h m^2	275

Adroddir ar berfformiad yn erbyn y targedau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Ganolfan Byd Gwaith.

Cyflawni'r gwerthoedd drwy ein pobl

Ein gwerthoedd a rannwn gyda'n rhiant, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yw'r egwyddorion arweiniol ar gyfer sut rydym yn darparu ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Maent yn ategu ein hymrwymiad i roi cwsmeriaid yn gyntaf ac yn ein helpu i ganolbwyntio nid yn unig ar yr hyn rydym yn ei ddarparu ond sut rydym yn ei wneud, gan gydnabod cyfraniad allweddol ein pobl at ddarparu ein gwasanaethau. Byddwn yn cymhwyso ein gwerthoedd at ein hamgylchedd gwaith o ddydd i ddydd, gan helpu ein pobl i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid proffesiynol o ansawdd uchel parhaus.

Drwy ddefnyddio ein hadnoddau yn effeithlon, gwella ein perfformiad yn barhaus, cyrraedd safonau uchel a chyson a gosod meincnod ar gyfer ansawdd gwasanaeth cyhoeddus



Drwy drin ein cwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid â pharch (gan ddisgwyl yr un peth yn ôl), sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol i'n cwsmeriaid a ni ein hunain, ac ymateb yn gadarnhaol i adborth gan gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid

Drwy gynorthwyo, herio ac ysbrydoli ein hunain fel y gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau ein cwsmeriaid, a thrwy fynd gam ymhellach i helpu ein cydweithwyr a'n holl gwsmeriaid, yn cynnwys cyflogwyr

Drwy weithio gyda'n gilydd gyda chyflogwyr, partneriaid, cymunedau lleol ac eraill i gyflawni eu nodau a'n nodau ein hunain, a thrwy nodi cyfleoedd arfer gorau yn gyson i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid

Ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn yw cynnwys ein pobl, adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd ein rheolwyr i arwain newid yn gyflym a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i bobl sy'n newydd i'r sefydliad i'w gwneud yn effeithiol mor gyflym â phosibl. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r heriau parhaus a wynebwn o ran y galw cynyddol am ein gwasanaethau yn ystod y dirywiad economaidd cyfredol ac er mwyn paratoi ar gyfer y broses adfer.

Byddwn yn atgyfnerthu'r broses o gynnwys y gweithlu drwy:

- cynorthwyo ein rheolwyr gyda dulliau a thechnegau megis methodoleg gwelliant parhaus 'Lean';
- cyflwyno'r fenter Byw yn Dda Gweithio'n Dda i'n holl dimau i wella lles ein pobl a pharhau i leihau cyfraddau absenoldeb;
- datblygu diwylliant sy'n ategu ein cynlluniau trawsnewid busnes; a
- sicrhau bod ein huwch reolwyr yn treulio amser yn darparu gwasanaethau sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid drwy'r rhaglen Yn ôl i'r Llawr, fel bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl gennym a'r hyn sydd ei angen ar ein pobl er mwyn cyflawni.

Byddwn yn cynnal proffesiynoldeb, gan roi'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar ein pobl i gyflawni i gwsmeriaid drwy:

- cyflwyno hyfforddiant Gwasanaethau Ymgynghori'r Dyfodol i ategu'r broses o bersonoleiddio gwasanaethau ymgynghorwyr;
- rhoi hyfforddiant gloywi i reolwyr ymgynghori i ategu'r broses bersonoleiddio;
- gweithredu rhaglen achredu sy'n benodol i'r swydd o fewn pob adran o'n busnes;
- sicrhau bod ein strategaethau sgiliau a'r adnoddau i'w cynnal yn unol â'n busnes a chynlluniau newid busnes; a
- parhau â datblygiad proffesiynol ein pobl yn ein meysydd cymorth allweddol drwy asesu anghenion datblygu wedi'i ategu gan gynlluniau datblygu trylwyr.

Byddwn yn datblygu ac yn rheoli talent drwy:

- gweithredu cynllun newydd y Ganolfan Byd Gwaith ar Reoli Talent Hyfforddeion er mwyn datblygu ein harweinwyr ar gyfer y dyfodol; a
- parhau i nodi cyfleoedd datblygu arweinwyr ar gyfer uwch arweinwyr drwy fforymau talent.

Byddwn yn rheoli perfformiad ein holl bobl drwy gydol y flwyddyn drwy:

- atgyfnerthu perfformiad pobl drwy sicrhau bod pawb yn cael adolygiadau rheolaidd i asesu'r broses o gyflawni targedau perfformiad, sgiliau ac ymddygiadau gofynnol; a
- parhau i wella cynhyrchiant drwy fframweithiau rheoli presenoldeb a rheoli perfformiad.

Rydym hefyd yn falch o gefnogi cyfraniad ein pobl at fywyd y gymuned leol drwy gynllun Cymuned 5000 yr Adran. Nod y cynllun hwn yw annog pobl ar draws yr Adran i roi help llaw, drwy gynnig eu hamser neu eu harbenigedd i sefydliadau sy'n cefnogi ein cwsmeriaid. Mae'r cynllun hefyd yn helpu ein pobl i ddeall anghenion ein cwsmeriaid mwyaf difreintiedig yn well.

Ein hadnoddau

Yn 2010-2011 mae angen i ni:

- cynnal y lefelau staffio cywir i ategu lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid proffesiynol ynghyd â chyflawni effeithlonrwydd a gynlluniwyd;
- sicrhau bod ein trefniadau darparu a chymorth yn ddigon hyblyg i ddarparu gwerth am arian a chyfrannu at yr effeithlonrwydd ychwanegol sydd ei angen;
- cynnal diogelwch gwybodaeth a chymhwyso rheolaethau busnes digonol;
- parhau i wella ein cynhyrchiant ynghyd â darparu canlyniadau gwell; a
- rheoli ein costau nad ydynt yn ymwneud â staff a sicrhau ein bod yn ystyried gwerth am arian wrth eu defnyddio.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- datblygu proses ragweithiol o gynllunio'r gweithlu, i sicrhau bod gennym y bobl gywir ar draws y busnes, ac ategu gweithdrefnau rheoli'r gweithlu i'n galluogi i addasu'n gyflym i amgylchiadau a galwadau economaidd ar ein busnes;
- manteisio ar welliannau mewn prosesau ar draws ein gweithrediadau a'n swyddogaethau canolog a chymorth a nodwyd drwy ddefnyddio technegau gwelliant parhaus 'Lean', i wella ein heffeithlonrwydd a'n cynhyrchiant;
- achub ar gyfleoedd i awtomeiddio a chynyddu mynediad i'n gwasanaethau ar-lein, er enghraifft Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein a chynigion i drawsffurfio gwasanaethau'r farchnad lafur
- disgwyl i'n swyddogaethau canolog a chymorth gynyddu eu cynhyrchiant yn barhaus drwy weithredu ffyrdd newydd o weithio;
- sicrhau bod amgylcheddau a dulliau rheoli cadarn ar waith, yn unol â pholisïau a blaenoriaethau busnes;
- sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu ein hasedau a'n dulliau gwybodaeth, gan sicrhau y cydymffurfir â'r rhain;
- gweithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddiaeth Gwasanaethau Masnachol DWP i sicrhau'r gwerth gorau am arian o gontractau strategol allanol ar gyfer gwasanaethau meddygol, TG a gwasanaethau swyddfa;
- rheoli ein costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â staff gan ganolbwyntio ar:
  - y gost o redeg ein systemau technoleg gwybodaeth;
  - maint a chost ein hystâd;
  - ein contract gwasanaethau meddygol;
  - gwariant teithio a chyfleustodau; a
- gwella ein dulliau rhagweld gwariant a'n dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n rheoli costau fel y gallwn ategu'r broses o wneud penderfyniadau yn y busnes yn well, gan ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithlon a sicrhau gwerth am arian.

Cyllideb Carbon

Rhoddodd y cyllidebau carbon a gyflwynwyd yng Nghyllideb 2009 y Canghellor derfyn ar y swm o nwyon tŷ gwydr y gall gweithrediadau sefydliad eu rhyddhau. Mae cyfnod cyntaf y gyllideb yn rhedeg o fis Ionawr 2008 i fis Rhagfyr 2012. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cyfrannu at gyllideb carbon yr Adran drwy ei theithiau busnes a'i defnydd o ynni. Wrth wneud hynny, rydym yn helpu i gyflawni ein targedau cynaliadwyedd.

Gwariant Arfaethedig yn 2010-2011

Y prif gategorïau gwariant yw:



Costau staff – costau cyflogau staff a chostau cysylltiedig

Costau nad ydynt yn staff – yn cynnwys costau TG a chontractau mawr megis gwasanaethau meddygol a gwasanaethau swyddfa

Ystadau – prisiau cyfleusterau a chostau cyfleustodau rheolaidd ar gyfer ein safleoedd a chostau buddsoddiad untro

Nad ydynt yn arian parod – costau dibrisiant asedau sefydlog a meddalwedd wedi'i gyfalafu

Mae'r siart uchod yn dangos dyraniadau presennol y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer 2010-2011 yn ôl y prif gategorïau gwariant. Caiff y dyraniadau eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau eu bod yn aros yn unol â'n cyllidebau a diwygiadau i'n cynlluniau busnes a lywir gan y llwythi gwaith a brofwn.

Y prif ffynonellau ariannu yw:



Craidd sylfaen – yr arian craidd a ddyrennir i gynorthwyo'r Ganolfan Byd Gwaith

Newid sylfaen – yn cynnwys arian ar gyfer y rhaglen o symud pobl o Fudd-dal Analluogrwydd i'r Lwfans Cymorth a Chyflogaeth

Dirywiad economaidd – arian ychwanegol i ategu mentrau polisi newydd a llwyth gwaith cynyddol, wedi'i ddarparu gan Drysorlys Ei Mawrhydi

Y Ganolfan Byd Gwaith y tu hwnt i 2010-2011



Gan edrych y tu hwnt i 2010-2011 byddwn yn parhau i fynd ati i newid, gan ganolbwyntio ar roi'r help a'r cymorth sydd ei angen ar ein cwsmeriaid i gael gwaith. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio opsiynau ar-lein a hunanwasanaeth i ddarparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid a chyflogwyr. Drwy wneud hynny byddwn yn darparu gwasanaethau tra'n lleihau costau ac yn cynyddu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Rhagor o help a chymorth i gwsmeriaid

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu gwasanaeth proffesiynol, personol a hyblyg i gwsmeriaid ynghyd â chefnogi ein hymgynghorwyr personol wrth iddynt wella eu harbenigedd cyflogi;
- ehangu ein cymorth i gwsmeriaid Lwfans Ceisio Gwaith i ddau aelod o gwpl nad oes ganddynt blant neu sydd â phlant hŷn;
- mwy o gymorth sy'n canolbwyntio ar waith i gwsmeriaid Budd-dal Analluogrwydd lle mae'n rhesymol gwneud hynny a'u bod yn gallu gweithio, wrth iddynt barhau i drosglwyddo i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; a
- parhau i symleiddio ein systemau budd-dal, gan eu gwneud yn haws i'w deall, drwy alinio rhai amodau cyfraniadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth â'r Lwfans Ceisio Gwaith.

Darparu ein gwasanaethau'n effeithlon ac effeithiol

Byddwn yn:

- parhau i ddefnyddio technolegau newydd, er enghraifft drwy gynnig ystod ehangach o'n gwasanaethau drwy dechnolegau amgen megis teleffoni symudol a theledu digidol; a
- defnyddio technolegau i alluogi ein hymgynghorwyr i ddarparu mwy o help a chymorth rhagweithiol i gwsmeriaid. Er enghraifft, gall ymgynghorwyr anfon e-bost drwy ddolenni dysgu a swyddi ar-lein a gweld gweithgarwch chwilio am swydd cwsmer fel bod eu hapwyntiad nesaf yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i gwsmeriaid ei wneud nesaf.

Astudiaeth Achos: Little TREASURES

Mae Little TREASURES yn fusnes bach yn Market Harborough, Swydd Gaerlŷr, sy'n darparu gwasanaethau cartref yn cynnwys glanhau, cynnal a chadw gerddi a siopa. Drwy Bartneriaeth Cyflogaeth Leol gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, mae wedi defnyddio Treialon Gwaith i recriwtio gweithlu lleol amrywiol.

Drwy gyfrwng y Bartneriaeth Cyflogaeth Leol defnyddiodd Little TREASURES Dreialon Gwaith i gyflogi naw aelod o staff newydd o fewn cyfnod o chwe mis. Mae chwech ohonynt yn rhieni unigol ac roedd tri yn cael Budd-dal Analluogrwydd.

Christine Roberts yw perchennog Little TREASURES:

"Cynigwn oriau hyblyg sy'n addas i rieni unigol, pobl sy'n dychwelyd i'r gwaith neu'r rhai ag ymrwymiadau teuluol. Mae Treialon Gwaith yn cynnig y gorau o ddau fyd; gall ymgeiswyr ddangos eu galluoedd i ni tra eu bod yn penderfynu a yw'r swydd yn addas iddynt hwy."

Dywed Christine:

"Erbyn hyn dwi'n troi at y Ganolfan Byd Gwaith bob tro mae angen i ni recriwtio staff newydd. Dwi wedi arbed llawer o arian ac maent wedi dod o hyd i weithlu arbennig i mi. Mae'r balchder a'r annibyniaeth o fod nôl yn y gwaith wedi helpu fy staff i ffynnu."

Gweithio'n effeithiol gyda chyflogwyr, partneriaid a darparwyr

Byddwn yn parhau i:

- darparu gwasanaeth rheoli cyfrifon proffesiynol i gyflogwyr cenedlaethol a lleol sy'n gweithio'n agos gyda ni i ehangu cyfleoedd i'n cwsmeriaid â blaenoriaeth;
- gweithio gyda'r prif gyrff cynrychioliadol ar gyfer busnesau i barhau i wella ein gwasanaeth recriwtio, yn enwedig ar gyfer busnesau bach;
- gweithio gyda Chyllid a Thollau EM i gysylltu ein cymorth i fusnesau â'r broses o ddatblygu gwasanaeth ar-lein cyswllt busnes;
- gweithio'n agos gyda'n partneriaid a chyflenwyr, gan roi gwybod iddynt am ddatblygiadau newydd i sicrhau bod ganddynt y gallu a'r adnoddau a'r hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau yn y galw yn ystod y dirywiad economaidd a'r broses adfer ddilynol;
- gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr dan gontract er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt; a
- nodi cyfleoedd pellach i gydweithio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â diweithdra a gwella cydlyniant a chosteffeithiolrwydd gwasanaethau ehangach i bobl leol.

Sicrhau gwerth am arian

Fel rhan o'r ymgyrch i wella rheolaeth ariannol yn barhaus, byddwn yn parhau i graffu ar gynlluniau gwariant ein Cyfarwyddiaeth a'n Gweithrediadau a'u herio. Byddwn yn gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- y broses fisol o ragweld gwariant ac adrodd ar wariant;
- adrodd i Fwrdd y Ganolfan Byd Gwaith yn cynnwys ein cyfarwyddwyr anweithredol;
- adolygiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r gwasanaeth archwilio mewnol o feysydd allweddol yn 2010-2011; a
- rheoli ac adrodd ar adnodd dros dro y dirywiad economaidd a chynlluniau ar gyfer llwythi gwaith ychwanegol.

Astudiaeth Achos: Cyngor Dinas Newcastle

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith, ochr yn ochr â phartneriaid strategol allweddol yn cynnwys Cyngor Dinas Newcastle, wedi creu cwmni di-elw - Newcastle Futures Ltd (NFL) - i fynd i'r afael â diweithdra yn Newcastle upon Tyne.

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant NFL yw natur gydweithredol y bartneriaeth a'r arian a gaiff o Gronfa Cymdogaethau sy'n Gweithio Cyngor Dinas Newcastle. Mae NFL yn cynnig ystod amrywiol o hyfforddiant a chymorth cam cyntaf i bobl ddi-waith i greu darpariaeth sy'n ychwanegu at raglenni prif ffrwd y Ganolfan Byd Gwaith a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau ac yn gweithredu gwasanaeth cyngor ac arweiniad cyfrinachol i bobl sy'n ystyried cyflogaeth. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu o ganolfannau cymunedol, canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill yng nghanol yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i sicrhau bod ei gwasanaethau yn hawdd cael gafael arnynt.

Drwy annog cydweithio rhwng ystod o grwpiau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae NFL yn helpu i sicrhau gwell gwerth o fentrau a ariennir gan y Llywodraeth a gwella'r cynnydd tuag at gyflawni targedau'r Cytundeb Ardal Leol i helpu pobl i symud o fudd-daliadau i gyflogaeth barhaus.

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2009, cofrestrodd bron 1,500 o bobl ledled y ddinas â'r NFL a llwyddodd dros hanner ohonynt i gael gwaith er gwaethaf effaith y dirwasgiad - ac roedd 70% o'r rhai a gafodd waith yn dod o ardaloedd o amddifadedd mawr.

Manteisio ar wasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio er mwyn ei gwneud mor rhwydd â phosibl i'n cwsmeriaid fanteisio ar ein gwasanaethau yn gyflym ac yn effeithlon, yn dibynnu ar eu hanghenion. Rydym yn rhedeg rhwydwaith o ganolfannau cyswllt ffôn a swyddfeydd ledled Prydain Fawr.

Chwilio am waith?

- Ewch i **www.direct.gov.uk/chwiliadgwaith** Gallwch chwilio drwy ein swyddi gwag ar-lein ar adegau sy'n gyfleus i chi.
- Ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar **0845 6067 890**, neu
- **0845 6044 022** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3], neu
- **0845 6060 234** i siaradwyr Saesneg, neu
- **0845 6055 255** i ddefnyddio'r Saesneg ar ffôn testun[3].

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 6pm ac ar ddydd Sadwrn, o 9am i 1pm.

Gwneud cais newydd am fudd-dal?

- Ewch i **www.direct.gov.uk/budd-daliadau**
- Ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 012 1888**, neu
- **0800 023 4888** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3]
- **0800 055 6688** i siaradwyr Saesneg, neu
- **0800 023 4888** i ddefnyddio'r Saesneg ar ffôn testun[3].

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol?

- Ffoniwch **0845 600 0643**, neu
- **0845 600 0644** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3].

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Yn amau twyll budd-daliadau?

- I roi gwybod am achos o dwyll budd-daliadau ewch ar-lein i **www.dwp.gov.uk/benefit-thieves**
- Ffoniwch y llinell gymorth genedlaethol ar **0800 854 440**, neu
- **0800 328 0512** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3], neu
- **0800 678 3722** i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru.

Mae'r llinellau cenedlaethol ar agor bob dydd, o 7am i 11pm. Mae'r llinell Gymraeg ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm (mae gwasanaeth peiriant ateb yn gweithredu o 7am i 8am ac o 6pm i 11pm yn ystod yr wythnos ac o 7am i 11pm ar benwythnosau).

Am gael rhagor o wybodaeth am y Fargen Newydd Hyblyg?

- Ewch i **www.direct.gov.uk/ceiswyrgwaith** a dilynwch y dolenni o dan 'Rhaglenni a Gwasanaethau'.

Cyflogwr sydd angen llenwi swyddi gwag?

- Gall cyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ar-lein yn **www.businesslink.gov.uk/jobcentreplus**
- ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar:
  - **0845 601 4441**, neu
  - **0845 601 4442** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3]
  - anfonwch ffacs at y Ganolfan Byd Gwaith ar **0845 601 2004**.
- Os ydych yn siarad Saesneg y rhif yw:
  - **0845 601 2001**, neu
  - **0845 601 2002** os ydych yn defnyddio ffôn testun[3].

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 6pm ac ar ddydd Sadwrn, o 10am i 4pm.

Angen gwybodaeth gyffredinol?

I gael gwybodaeth bellach, ewch i Directgov yn **www.direct.gov.uk/cy**

Mae galwadau 0800 am ddim o linellau daear BT ac o rwydweithiau ffôn symudol Vodafone, T-Mobile, O2, Orange, Virgin Media a Tesco.

Gall y costau ar gyfer galwadau o rwydweithiau ffôn symudol neu o rwydweithiau ffôn llinell daear eraill fod yn wahanol.

Codir tâl am alwadau 0845. Mae'r taliadau hyn yn amrywio yn ôl y cwmni ffôn a'r tariff.

[3] Mae ffonau testun ar gyfer cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Ni allant dderbyn negeseuon testun o ffonau symudol

Am gael rhagor o wybodaeth? Edrychwch ar ein gwybodaeth yn:

www.dwp.gov.uk/jobcentreplus

Rydym yn croesawu eich adborth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cwestiynau neu farn am unrhyw beth yn ein Cynllun Busnes drwy:

Anfon e-bost atom yn:
Business-plan@jobcentreplus.gsi.gov.uk

NEU

Eu postio i:
The Strategic Planning Division
Jobcentre Plus
Room 3C21
Quarry House
Quarry Hill
Leeds
West Yorkshire
LS2 7UA

ISBN: 978-1-84947-326-2
Cyf: JPBP1011W

GADARN O BLAID NA · POBL ANABL

BUDDSODDWR MEWN POBL

canolfanbydgwaith

Ⓗ Hawlfraint y Goron. Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. 2010.